


PWYLLGOR CYFLAWNI RHAGLENNI – CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 09:30-12:30

 9 Tachwedd 2023

 MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Simon Jones	SJ	Cadeirydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Ruth Glazzard	RG	Is-gadeirydd y Bwrdd	DHCW
David Selway	DS	Aelod Annibynnol	DHCW
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol	DHCW

Yn Bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	DHCW
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Ddigidol	DHCW
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	DHCW
Simon Jones	SJ	Cadeirydd	DHCW
Matt Cornish	RG	Cyfarwyddwr Rhaglen DSPP	DHCW
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	DHCW
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad / Prif Swyddog Masnachol (Tan adran 3)	DHCW
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, CCIO Cymru, Wrolegydd Ymgynghorol	DHCW

Cofnodion heb eu cadarnhau:

Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni - Cyhoeddus Tach 23

Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (tan adran 3)	DHCW
Lee Mullin	LM	Cyfarwyddwr Rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) (ar gyfer eitem 3.1)	DHCW
Rebecca Cook	RC	Cyfarwyddwr Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) (ar gyfer eitem 3.3)	DHCW
Skylar Green	SG	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	DHCW

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones	Aelod Annibynnol	DHCW
Ruth Glazzard	Is-Gadeirydd (O 12pm ymlaen)	DHCW
Rowan Gardner	Aelod Annibynnol (O 12pm ymlaen)	DHCW

Acronymau

SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	BAU	Busnes fel Arfer
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
PART 1 – PRELIMINARY MATTERS			
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni Iechyd Digidol a Gofal Cymru.</p> <p>Dywedodd SJ mai hwn oedd cyfarfod cyhoeddus cyntaf y Pwyllgor newydd, a sefydlwyd yn dilyn adolygiad annibynnol o Lywodraethu Rhaglenni a gomisiynwyd gan DHCW, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Dywedodd SJ y byddai'r pwyllgor yn adrodd i Fwrdd SHA ac y byddai'n rhoi sicrwydd ynghylch holl brif raglenni DHCW.</p> <p>Darparodd y Cadeirydd hefyd rai hysbysiadau cadw tŷ ynghylch yr agweddau technegol ar gofnodi'r cyfarfod, yr egwyl gynlluniedig, a'r rheolau o ran moesau.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Marian Wyn-Jones, Aelod Annibynnol o Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. 2. Ruth Glazzard – angen gadael am 12pm oherwydd ymrwymadau a oedd eisoes yn bodoli. 3. Rowan Gardner – angen gadael am 12pm oherwydd ymrwymadau a oedd eisoes yn bodoli. 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	Materion sy'n codi	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Ni chodwyd unrhyw faterion.		
RHAN 2 - PRIF AGENDA			
2.1	<p>DHCW Trefniadau Llywodraethu Diwygiedig</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd, Simon Jones (SJ), wrth bawb fod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, er enghraifft cadarnhau newid o Uwch Swyddogion Cyfrifol Rhaglenni i Gadeiryddion Rhaglenni. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru ar drosglwyddo'r trefniadau hyn.</p> <p>Crynhodd Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd, y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd cylch gorchwyl mewnol Bwrdd Rheoli DHCW wedi'i gryfhau i sicrhau arolygiaeth o raglenni mawr DHCW ar sail Portffolio. ➤ Byddai'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys o fewn y cwmpas ar gyfer arolygiaeth ar sail portffolio yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac yn fwy rheolaidd pe bai angen, yn enwedig o ystyried prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu datblygu. ➤ Byddai'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn rhoi sicrwydd a chraffu ar gyflawni rhaglenni mawr a gynhelir gan DHCW mewn modd agored a thryloyw. ➤ Bydd Llywodraeth Cymru yn dwyn DHCW i gyfrif am gyflawni rhaglenni a gynhelir gan DHCW, gan ddefnyddio trefniadau rheoli perfformiad presennol e.e. adolygiadau'r Tîm Gweithredol ar y Cyd (JET) ac Adolygiadau Cynllunio a Chyflawni Gweithredol Integredig (IOPD). ➤ Roedd y Pwyllgor yn cynnwys pum Aelod Annibynnol gan gynnwys y Cadeirydd. <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflenwi Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>NODI trefniadau llywodraethu diwygiedig DHCW.</p>	Nodwyd	
2.2	<p>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor.</p> <p>Cyflwynodd Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd, y ddwy ddogfen a thynnodd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Pwrpas y pwyllgor oedd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr fod trefniadau effeithiol ar 	Cymeradwywyd a nodwyd	CAM GWEITHREDU A01: Trafod cwmpas y Pwyllgor mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd /

	<p>waith o ran cyflawni rhaglenni mawr. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ynghylch datblygu a gweithredu'r rhaglenni, a gwelliannau pellach iddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni wedi'i ddrafftio mewn cydweithrediad ag arweinwyr allweddol o fewn DHCW, ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo. ➤ Byddai'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i Fwrdd SHA ar y gwaith o gefnogi'r datganiad llywodraethu blynyddol i gynnwys y rhaglenni sydd o fewn cwmpas y pwyllgor. ➤ Byddai'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn cyfarfod bob chwarter. ➤ Roedd blaengynllun gwaith y Pwyllgor wedi'i ddatblygu, gan nodi y byddai cylch busnes blynyddol yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2024-2025. ➤ Roedd yr eitemau sefydlog a gynhwyswyd yn y blaengynllun gwaith yn cynnwys adroddiad crynhoi cynnydd rhaglenni a oedd yn cwmpasu'r holl raglenni o fewn cwmpas y pwyllgor, adroddiadau sicrwydd ar gyfer pob rhaglen dros gyfnod o 12 mis, y gofrestr risg gorfforaethol a dysgu o drefniadau LINC ac RISP a threfniadau llywodraethu. <p>Ar ôl trafodaeth, cytunodd y Pwyllgor pe bai'r rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni mawr yn mynd yn goch neu'n oren, y byddent yn cael eu huwchgyfeirio i'r grŵp hwn o Bwyllgorau. CAM GWEITHREDU A-01 Yn ogystal, byddai sesiwn Datblygu'r Pwyllgor yn cael ei chynnal i drafod a chadarnhau cwmpas y Rhaglenni y byddai'r Pwyllgor yn eu goruchwyllo i ddechrau, gan gydnabod y byddai hyn yn newid dros amser, a byddai'r rhestr hon yn cael ei dwyn yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w nodi.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>CYMERADWYO Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a NODI'R blaengynllun gwaith.</p>		<p>Pwyllgor yn y dyfodol gyda phapur yn cadarnhau'r cynnig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor</p>
2.3	<p>Adroddiad Trosolwg Rhaglenni</p> <p>Hysbysodd SJ aelodau'r Pwyllgor fod un newid wedi'i</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi

wneud i statws RAG cyffredinol y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol ers cyhoeddi'r papurau'n wreiddiol. Cyhoeddwyd hwn yn wreiddiol gyda statws RAG cyffredinol o WYRDD; ers hynny, mae hwn wedi'i gywiro i fod yn statws OREN/GWYRDD.

Trosolwg o'r rhaglenni:

1. Crynodeb dangosfwrdd: Darparodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Ddigidol, y diweddariad canlynol.

Ar hyn o bryd, roedd 11 o raglenni wedi'u nodi y gellir eu dosbarthu fel rhai mawr ac sydd wedi'u cynnwys yn y dangosfwrdd. Roedd y dangosfwrdd yn dangos y sgôr unigol o ran llinell amser, cwmpas, adnoddau, a sgôr gyffredinol. Defnyddiodd bedwar band lliw i ddangos symudiad y rhaglenni. Cadarnhawyd y rhain fel Coch, Oren, Oren/Gwyrdd, Gwyrdd. Cadarnhaodd IE fod y rhaglenni'n gwneud eu hunanasesiad RAG eu hunain; roedd rhywfaint o anghysondeb yn y dull RAG ar gyfer sgorio; fodd bynnag, byddai gwaith yn cael ei wneud gan y swyddfa rheoli portffolios i ddarparu arweiniad clir i raglenni wrth symud ymlaen.

2. Darparodd Sam Hall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (SH), ddiweddariad ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru:

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) oedd y galluogwr digidol allweddol ar gyfer trawsnewid sylfaenol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â pholisi'r llywodraeth:

RAG cyffredinol: Oren

Roedd paratodau cam dau ar gyfer gosod plattform newydd yn parhau i fynd rhagddynt. Roedd y rhaglen yn y cyfnod cynllunio/darganfod. Roedd rhai cerrig milltir cyfredol o fewn y rhaglen yn heriol.

Paratoi ar gyfer Cam dau oedd y prif beth y gellid ei gyflawni ar gyfer y cyfnod nesaf. Roedd gan y rhaglen fewnol adnoddau digonol ar gyfer y gweithgarwch gweithredol cyfredol.

3. Darparodd IE ddiweddariad ar Famolaeth Digidol Cymru (DMC)

Amcan y rhaglen oedd darparu datrysiad mamolaeth digidol ledled Cymru sy'n cefnogi clinigwyr ac yn grymuso menywod a phobl sy'n geni i gymryd rhan mewn gofal diogel o ansawdd uchel sy'n cefnogi canlyniadau a phrofiadau gwell.

RAG cyffredinol: Oren Gwyrdd.

Roedd y rhaglen hon yn y cam darganfod/datblygu, gydag achos busnes amlinellol (OBC) yn cael ei ddatblygu, i gefnogi'r broses gaffael a hefyd i sicrhau bod holl ofynion y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys.

Mae cynllun rhaglen lefel uchel wedi'i ddeall, ond mae amserlenni cyffredinol yn dibynnu ar ddechrau caffael. Mae cwmpas y rhaglen wedi'i ddiffinio'n dda yn ystod y gwaith darganfod.

Mae'r rhaglen wedi sicrhau cyllid am 4 blynedd; fodd bynnag, mae rhai bylchau wedi'u nodi ar gyfer 25/26 a 26/27 o ran adnoddau ar gyfer timau cenedlaethol a gweithredu lleol. Bydd datblygu'r achos busnes yn pennu gofynion o ran adnoddau yn fwy manwl.

Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno i Fwrdd SHA am drafodaeth ar y cynllun ariannu hirdymor.

4. Darparodd SH ddiweddariad ar ofal Llygaid.

Amcanion y rhaglen yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Bil diwygio Optometreg (Medi 2022) a rheoliadau newydd (Medi 2023), gan gynnwys darparu gofal a rennir rhwng gwasanaethau optometreg ac offthalmoleg, ac ar draws ffiniau byrddau iechyd trwy ddarparu systemau digidol a data TG. Y prif bethau i'w cyflawni yn hyn o beth yw e-bost, O365, atgyfeiriadau electronig ar gyfer Optometryddion ac EPR ar gyfer gwasanaethau Offthalmoleg.

Atgoffodd SH aelodau'r Pwyllgor fod y rhaglen hon wedi'i throsglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i DHCW ar 1 Mehefin 2023.

RAG cyffredinol: Coch.

Y rheswm pam mae'r RAG yn goch oedd oherwydd bod y rhaglen yn dal i fod yn y cyfnod atal ac ailosod, y rhagwelwyd y byddai'n cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref, yn dilyn trosglwyddo'r rhaglen o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i DHCW ar 1 Mehefin 2023; fodd bynnag, cytunwyd ar estyniad tan ddiwedd mis Tachwedd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi gofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad brys o'r rhaglen. Roedd hwn yn cael ei gychwyn gan Gaerdydd a'r Fro (CAV), a byddai DHCW yn gweithio'n agos gyda CAV ar ganlyniad yr adolygiad, a hefyd y camau nesaf tuag at ei symud ymlaen.

Er bod y rhaglen yn y cyfnod atal ac ailosod, roedd DHCW wedi datblygu e-bost Office 365/Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), a oedd yn yn flaenoriaeth allweddol, gyda'r nod o gael pobl i symud o ddibynnu ar bapur i ddefnyddio e-bost y GIG - Roedd hyn yn mynd yn dda.

Roedd diffyg cyllid ac adnoddau yn bryder mawr ac yn risg i'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.

5. Darparodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Drosglwyddo Pen-y-bont ar Ogwr (Gan gynnwys Dadgyfuno System Gweinyddu Cleifion Cymru)

Amcan y rhaglen oedd cefnogi gwaith Rhaglen Trosglwyddo Gwasanaethau TGCh Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM) Pen-y-bont ar Ogwr i symud cleifion Pen-y-bont ar Ogwr allan o systemau TGCh Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SB) i systemau TGCh CTM yn dilyn newid ffiniau'r bwrdd iechyd ym mis Ebrill 2019.

RAG cyffredinol: Oren:

Roedd yr asesiad effaith cychwynnol wedi'i wneud ac roedd dau ar hugain o Wasanaethau Digidol Cenedlaethol eraill y byddai'r gwaith hwn yn effeithio arnynt. Roedd y gwaith rhagarweiniol i bennu'r cwmpas wedi'i gwblhau. Roedd gwaith y rhaglen wedi'i osod allan i ymgymryd â'r broses o symud data o'r ddau achos W PAS sy'n gysylltiedig â saith trawsnewidiad data gwahanol. Roedd y ddau gam cyntaf wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Bydd cyfres ychwanegol o waith yn cynnwys gweithgareddau profi, integreiddio llawn a throsglwyddo.

Y rheswm pam mae'r llinell amser yn goch oedd oherwydd y llinellau amser y bwriadwyd eu cymryd ar hyn o bryd oedd y gwaith hyd at fis Mai 2025 i'w gwblhau'n llawn. Roedd y cyllid yn ei le tan fis Mawrth 2025. Yr opsiynau a gyflwynwyd yw naill ai ymestyn y cyllid neu ddwyn y gwaith ymlaen. Tynnodd SL sylw at y ffaith mai dyma'r gwaith mudo data mwyaf cymhleth y mae DHCW wedi'i wneud.

6. Cyflwynodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad / Prif Swyddog Masnachol (MS), ddiweddariad ar System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS)

Byddai System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS) yn system genedlaethol ganolog i reoli'r holl unedau

gofal critigol i oedolion, gan ddarparu dull gofal critigol safonol ledled Cymru. Byddai'r system yn disodli'r holl gofnodion papur cyfredol a systemau gwybodaeth glinigol gofal critigol cyfredol eraill, gan sicrhau y gellir rheoli cofnod llawn y claf mewn un lle.

RAG cyffredinol: Oren.

Roedd gwaith wedi'i wneud gyda'r partner masnachol a nifer o randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eglurder ynghylch y gofynion a sut i'w cyflawni. Aethpwyd i'r afael â'r gofynion hynny ac roedd y rhaglen yng nghyfarwyddwr olaf y profion cyn mynd yn fyw. Byddai'r gweithredu cyntaf yn digwydd ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan (BIPABM). Fodd bynnag, bu oedi yn yr amserlen wreiddiol oherwydd newidiadau i ofynion sydd angen cael eu datblygu ymhellach ar gyfer integreiddio canlyniadau labordy a'r modiwl therapi cyffuriau.

Roedd yr holl brofion a dilysu canolog wedi'u cwblhau ac erbyn hyn, y Bwrdd Iechyd fyddai'n penderfynu a ddylid mynd yn fyw ai peidio.

Cam nesaf y cynllun oedd rhoi'r datrysiad ar waith ar draws gweddill y byrddau iechyd yng Nghymru.

Oherwydd estyniad i'r rhaglen (canol 2025), mae angen staff i gefnogi'r broses gyflwyno am 12 mis ychwanegol. Cytunwyd y cynhelir sgwrs gyda Llywodraeth Cymru am y cyllid ar gyfer 2025/2026 y flwyddyn nesaf.

7. Darparodd MS ddiweddariad ar Gaffael System Gwybodeg Radioleg (RISP)

Amcan y rhaglen hon oedd caffael systemau System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS), System Gwybodaeth Radioleg (RIS) a System Rheoli Dosau Cleifion (PDMS) newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd yng Nghymru, oherwydd bod y contract PACS presennol yn dod i ben yn 2023/2024.

Roedd y rhaglen wedi trosglwyddo i DHCW o Gydweithrediaeth y GIG ym mis Ionawr 2023.

RAG cyffredinol: Oren.

Rôl DHCW fyddai cefnogi'r gwaith o ddarparu datrysiad canolog, gan weithio'n agos gyda'r byrddau iechyd a rheoli meysydd fel integreiddio i'r systemau ehangach er mwyn i wybodaeth allu llifo i mewn ac allan o radioleg yn ôl yr angen.

Adroddwyd am gynnydd da er gwaethaf rhai heriau

cynnar. Roedd cynllun cytunedig wrth symud ymlaen. Roedd disgwyl i'r contract terfynol gyda Bwrdd Iechyd gael ei gymeradwyo'n fuan.

Roedd adnoddau wedi'u nodi fel risg, ond roedd cynllun i roi'r adnoddau angenrheidiol ar waith. Unwaith y bydd yr adnoddau hynny ar waith, bydd y RAG yn cael ei adolygu eto.

8. Darparodd MS ddiweddariad ar y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS 2.0)

RAG cyffredinol: Oren.

Amcan y rhaglen oedd cyfrannu at ddatganiad o fwriad Patholeg Llywodraeth Cymru trwy ddatblygu gwasanaethau patholeg diogel, cynaliadwy a safonol trwy systemau a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o un pen i'r llall.

Trosglwyddwyd y rhaglen hon i DHCW o Raglen Gydweithredol y GIG ym mis Ionawr 2023.

I grynhoi, roedd llwyfan o ran y system a oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel un system ledled Cymru i gefnogi gwasanaethau labordy. Roedd penderfyniad wedi'i wneud i newid y cyflenwr er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn a diogel i ddatrysiaid newydd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Disgwylwyd y bydd y statws RAG yn newid erbyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor gael ei gynnal oherwydd bod y cyflenwr newydd a chynlluniau cadarn yn eu lle.

9. Darparodd IE ddiweddariad ar y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP)

Roedd y rhaglen yn cynnwys Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP), a oedd yn cynnwys y Prosiect Cofnod Meddyginiaethau a Rennir (SMR), y Rhaglen Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig (EPS), y Rhaglen e-ragnodi Ysbyty (ePMA), a'r Prosiect Mynediad Cleifion (PA).

RAG cyffredinol: Oren Gwyrdd.

Ymddengys fod cyflawni llwyddiannus yn debygol. Roedd oedi posibl wedi'i nodi oherwydd dibyniaethau allweddol ar gyflenwyr a rhaglenni eraill.

Roedd cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â'r rhaglen EPMA.

Llongyfarchodd IE y DMTP ar ddwy wobwr a enillwyd ar 8 Tachwedd.

10. Rhoddodd Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (RH), ddiweddariad ar y Rhaglen Gwybodeg Canser (CIP)

RAG cyffredinol: Coch.

Amcan y rhaglen oedd disodli'r hen System Gwybodaeth Rhwydwaith Canser Cymru (Canisc) nad oedd yn cael ei chefnogi bellach. Byddai'r datrysiad newydd yn cael ei ddatblygu ar gynhyrchion presennol megis System Porth Clinigol Cymru a System Gweinyddu Cleifion Cymru.

Cefndir:

Canisc oedd yr enw cyffredin ar System Gwybodaeth Rhwydwaith Canser Cymru; aeth yn fyw ym 1994, ac roedd yn dal i fod yn weithredol.

Amcan yr achos busnes gwreiddiol oedd dileu'r ddibyniaeth ar y system, a oedd yn ymyrryd â'r gallu i ddarparu parhad gofal a gwasanaeth.

Cymeradwywyd yr achos busnes ym mis Tachwedd 2019; cyn gynted ag y rhoddwyd yr achos busnes ar waith, dechreuodd y pandemig COVID-19, a gafodd effaith ar y llinellau amser.

Ym mis Tachwedd 2022, dilëwyd dibyniaeth Canolfan Ganser Felindre ar Canisc wrth i'r Ymddiriedolaeth symud i WPAS ac i WCP.

Rhannwyd y rhaglen yn dair rhan:

1. Dibyniaeth ar gyfer darparu canser
2. Dibyniaeth ar gyfer gofal lliniarol
3. Gwasanaethau colonosgopi a sgrinio

Mae nifer o gymhlethdodau wedi'u nodi ar draws y tri gwasanaeth.

Byddai angen mireinio a chwmpas ar Ganser Cam 2. Byddai angen cyllid am 2.5 mlynedd ychwanegol, yn ôl amcangyfrif lefel uchel.

Roedd gwaith agos yn cael ei wneud gyda'r bwrdd gofal diwedd oes ac roedd dibyniaeth ar integreiddio i systemau niferus ledled Cymru i sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddiogel.

	<p>Adroddwyd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran y gwaith o ddarparu rheoli nodiadau achos gofal cleifion, yn ogystal â chynnydd mewn perthynas â dylunio pensaernïol. Mae'r cofnod gwella a gofal wedi cael ei ailystyried gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac roedd ar ganol cael ei gymeradwyo cyn Nadolig 2023.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>DERBYN A THRAFOD Adroddiad Trosolwg y Rhaglen.</p>		
2.4	<p>Y Gofrestr Risg Corfforaethol (Risg Rhaglen)</p> <p>Rhoddodd CD ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.</p> <p>Bryd hynny, roedd saith risg corfforaethol ar y gofrestr yn ymwneud â'r Pwyllgor. Dosbarthwyd tri ohonynt yn rhai preifat, ac felly nid oeddent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r cyfarfod. Roedd pedwar ohonynt yn risgiau cyhoeddus ac fe'u cadarnhawyd fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. DHCW0322- Ariannu cam tri'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) 2. DHCW0324- Argaeledd adnoddau i gefnogi WICIS 3. DHCW0323- Y gost ar gyfer trosglwyddo a chymorth parhaus ar gyfer ap GIG Cymru. <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflenwi Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 – ADOLYGIAD SICRWYDD			
3.1	<p>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru</p> <p>Cyflwynodd SH a Lee Mullin, Cyfarwyddwr Rhaglen WCCIS, sleidiau ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.</p> <p>Yn ystod y cyflwyniad, amlygwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Ers mis Tachwedd 2021, roedd y rhaglen wedi bod yn destun adolygiad strategol, a fu'n arwain at ailosod y rhaglen yn ôl argymhellion. Cynhaliwyd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu pellach â phartneriaid a rhanddeiliaid yn dilyn hyn. Ar hyn o bryd, roedd y rhaglen yn dechrau ar gam nesaf ei gwaith; elfen allweddol o hyn oedd opsiynau ar gyfer newid o amgylch datrysiad digidol y rhaglen. 	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Allan o 29 o sefydliadau, mae 20 o leoliadau gweithredol ledled Cymru ar hyn o bryd, 19 yn fyw, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sy'n defnyddio gwasanaethau dan gontract. ➤ Golwg Rhaglen Hirdymor: <ul style="list-style-type: none"> ○ Darparu plattform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol. ○ Ehangu'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal. ○ Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel. ○ Ysgogi gwell gwerth a chanlyniadau trwy arloesi. ➤ Cam Nesaf Rhaglen WCCIS: <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cynhyrchu drafft ar gyfer achos busnes a chynllun caffael llawn i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru erbyn Nadolig 2023. <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>NODI Adroddiad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar gyfer SICRWYDD.</p>		
3.2	<p>Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd</p> <p>Cyflwynodd Matt Cornish, Cyfarwyddwr Rhaglen DSPP (MC), ddiweddariad ar ddatblygiad Ap GIG Cymru.</p> <p>Cyfnodau'r rhaglen:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Blwyddyn 1 2022/23- Datblygiad 2. Blwyddyn 2 2023/24- Defnydd 3. Blwyddyn 3 2024/25- Ehangu <p>Rhannwyd fideo arddangos, https://www.youtube.com/watch?v=JvAHkQzxy9U</p> <p>Roedd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael tan fis Mawrth 2025. Roedd achos busnes am gyllid ychwanegol ar ganol cael ei ddatblygu.</p>	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

	<p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>NODI'r adroddiad ar gyfer SICRWYDD.</p>		
3.3	<p>Adnodd Data Cenedlaethol</p> <p>Cyflwynodd Rebecca Cook, Cyfarwyddwr Rhaglen yr NDR (RC), sleidiau'r NDR, ac amlygodd y canlynol:</p> <p>Roedd Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) yn dangos ymrwymiad hirdymor i wella rhyngweithrededd pensaernïaeth ddigidol iechyd a gofal cymdeithasol yn barhaus ac roedd yn ofyniad sylfaenol i alluogi un cofnod iechyd a gofal cymdeithasol digidol.</p> <p>Roedd risgiau'n cynnwys:</p> <p>Sefyllfa Ariannol GIG Cymru – gallai pwysau ar lefel y cyllid ar gyfer y rhaglen barhaus effeithio ar gyflymder y cyflawni.</p> <p>Defnyddio Data Gofal Sylfaenol – Os na ellir diffinio set glir o ddibenion i gasglu a phrosesu data dinasyddion o Ofal Sylfaenol, ni fydd y rhaglen yn gallu darparu elfennau pwysig o gofnod gofal a rennir sydd wedi'i ddatblygu'n llawn na chreu adnoddau gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gwella gwasanaethau, gwerth ym maes iechyd neu ymchwil ac arloesi.</p> <p>Roedd pennu sail gyfreithiol ar gyfer y defnydd eilaidd o ddata yn her. Mae'r rhaglen yn anelu at gyflwyno mewnwelediad a gwerth yn gyflym trwy gysylltu ac aildefnyddio data. Nid oedd modd deall eto pa mor gyflym y byddai'r rhain yn cael eu pennu. Nododd CD y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn cael adroddiad manwl ar risg yr Addewid Data yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.</p> <p>Roedd yn parhau i fod ymgysylltu rhagorol â sefydliadau partner. Er mwyn cyflymu'r gwaith cyflawni, byddai gwaith ymgysylltu â sefydliadau iechyd a gofal GIG Cymru yn cael ei gynyddu i barhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes (e.e., modelau rhagweld i baru capasiti â galw; codio clinigol awtomatig i alluogi mewnwelediad cyflymach).</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflenwi Rhaglenni wneud y canlynol:</p> <p>NODI'r adroddiad ar gyfer SICRWYDD.</p>	Rhodddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

RHAN 4 – MATERION I GLOI



4.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill Ni nodwyd unrhyw faterion brys.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd Cadarnhaodd SJ y byddai eitemau i'w cynnwys yn yr adroddiad crynhoi cynnydd i'r Bwrdd yn cael eu trafod a'u cytuno gydag aelodau allweddol.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Chwefror 2024	Nodwyd	Dim i'w nodi